**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED COMMUNITY COUNCIL**
Tryal Bach, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA33 6ST
clerccynwylelfed@gmail.com 01267281128 07792765732

## Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Yn ôl y gyfraith, gall unrhyw un archwilio cyfrifon y cyngor. Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol, mae gennych chi (neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan) yr hawl hefyd i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon ac i godi gwrthwynebiadau ffurfiol.

### Arolygu'r cyfrifon
Unwaith y bydd y cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i'w harchwilio. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, gallwch archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol am 20 diwrnod gweithio. Gellir gofyn am gopïau, er y gallai fod tâl copïo am hyn.

### Gofyn cwestiynau i'r archwilydd
Dim ond am y cyfrifon sy'n destun archwiliad y gellir gofyn cwestiynau. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisïau, penderfyniadau neu weithdrefnau'r cyngor oni bai eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfrifon, ac nid oes rhaid iddo ddweud a yw rhywbeth yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

### Gwrthwynebu'r cyfrifon
Os ydych chi'n credu bod y cyngor wedi gwario arian yn anghyfreithlon, neu fod rhywun wedi achosi colled ariannol yn fwriadol neu drwy ymddygiad anghyfrifol, gallwch wrthwynebu. Rhaid gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol, egluro'r rhesymau'n glir, a rhaid anfon copi at y cyngor hefyd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch yn apelio i'r llysoedd. Gallwch hefyd wrthwynebu os ydych chi'n credu bod problem yn y cyfrifon y dylid ei adrodd yn gyhoeddus er budd y cyhoedd. Ni ellir defnyddio'r broses hon i wneud cwynion neu hawliadau personol.

### Ffyrdd eraill o godi pryderon
Yn hytrach na gwneud gwrthwynebiad ffurfiol, gallwch ddarparu gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol os ydych chi'n credu bod gwallau yn y cyfrifon neu bryderon am wastraff neu aneffeithlonrwydd. Nid oes unrhyw weithdrefnau na dyddiadau cau penodol ar gyfer gwneud hyn.

## Gwybodaeth bwysig
Mae'r gost o ddelio â chwestiynau a gwrthwynebiadau yn cael ei dalu gan drethdalwyr lleol. Dim ond materion sydd er budd y cyhoedd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymchwilio. Os byddwch yn mynd â mater i'r llys, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hun.

### Cysylltwch
Cysylltwch ag Archwilydd Cyffredinol CymruArchwiliadau Cyngor Cymuned, Archwilio Cymru1 Capital Quarter, Stryd TyndallCaerdydd, CF10 4BZ

# Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed

## Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2025-26

Mae rheoliad 15(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed lofnodi  a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 2026.

Oherwydd bod y llyfrau gyda'r archwilyddbmewnol adeg cyfarfod misol mis Mehefin y Cyngor, nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. Bydd y datganiad o gyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon erbyn ar 20 o mis Gorffennaf.